



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR 1 – TYMOR YR HYDREF 2018 - Ychwanegiad
AUTUMN TERM 2018 – NEWSLETTER 1 - Addition

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Annwyl bawb

Ychwanegiad bach i'n cylchlythyr yr wythnos diwethaf / [A few additions to last week's newsletter.](#)

Gohirio'r Cylch Cerdded / [Walkathon Postponed](#)

Mae'r dyddiadur wedi bod yn brysur lenwi. Yn anffodus, oherwydd amryw o alwadau ar y disgyblion, mae'n rhaid i ni ohirio'r Cylch Cerdded drefnwyd ar gyfer y disgyblion brynhawn Gwener nesaf (28^{ain}).

The diary has been busy filling. Unfortunately, due to various commitments involving the pupils, we have to postpone the Walkathon arranged for next Friday afternoon (28th).

Newyddion cyffrous / [Exciting News](#)

Ychydig cyn gwyliau'r Haf fe cynigiodd yr Awdurdod Addysg am grant cyfalaf oedd ar gael drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r cais wedi bod yn llwyddiannus gyda swm sylweddol wedi'i glustnodi ar gyfer yr ysgol. Y gobaith yw y gall ddarparu

- Estyniad ar gyfer dau ddosbarth ychwanegol
- Uned cyn ysgol
- Ail ddatblygu'r gampfa
- MUGA

Linc at ddatganiad gwasg y llywodraeth isod. Newyddion cyffrous yn wir!

<https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/51m-to-support-the-growth-in-welsh-medium-education/?skip=1&lang=cy>

Prior to the summer holidays, the education authority applied for a capital grant via the Welsh Government. The bid has been successful and a significant sum has been earmarked for the school. It is hoped that it could provide

- *an extension for two extra classrooms*
- *a pre school unit*
- *redevelopment of the gym area*
- *a multi use games area (MUGA)*

A link to the Welsh Government press release is below. Exciting news indeed!


<https://gov.wales/newsroom/educationandskills/2018/51m-to-support-the-growth-in-welsh-medium-education/?lang=en>

Presenoldeb / Attendance

Ar ôl cynnal lefelau presenoldeb uchel ar hyd y flwyddyn, siom mawr oedd gweld presenoldeb yr ysgol yn cwmpo'n sylweddol dros y ddeufis olaf. Lefel presenoldeb terfynol yr ysgol dros y flwyddyn 2017 – 2018 oedd i 95.11% (i lawr o o 95.44% y flwyddyn flaenorol). Gymaint yw'r pryder am bresenoldeb ar draws yr awdurdod, mae'r Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet Dros Addysg wedi ysgrifennu llythyr at rieni yn annog presenoldeb uchel (wedi atodi gyda'r ebost).

After maintaining high attendance levels throughout the year, it was very disappointing to see those high levels drop significantly over the final two months. Our final whole school attendance level for 2017 – 2018 was 95.11% (down from 95.44% the previous year).

Such is the concern over attendance levels across the authority, the Director and Cabinet Member for Education have written a joint letter to parents (attached to the email).



Y Siarter Iaith / Welsh Language Charter

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at wobwr aur Siarter Iaith Castell Nedd a Phort Talbot. Prif nod y Siarter yw ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau fel eu bod yn ymwybodol o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, cymunedol ac ieithyddol Cymru.

Rydych chi, ein rhieni yn ganolog i hyn a gofynnwn i chi ein cefnogi yn y nod yma. Gobeithiwn eich cynnwys fwyfwy yn ein gwaith tuag at weithredu'r Siarter ac wrth atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd gyda'r disgyblion. Ynglwm y mae rhai ymadroddion Cymraeg i'ch cynorthwyo i ffarwelio a'ch plant yn y bore a'u croesawi'n ôl ar ddiwedd dydd. Anogwn chi i'w defnyddio gyda'ch plant.

Yn yr un modd, allwn ni eich atgoffa o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael yng Nghanolfan Gymraeg Pontardawe, Tŷ'r Gwrhyd sy'n cychwyn yr wythnos yma. Mae cwrs ar gael i bawb o bob lefel. Ffordd wych o gefnogi taith iaith eich plentyn.

The school is working towards the gold stage of the Neath and Port Talbot Language Charter. The main aim of the Charter is to inspire our children and young people to use the Welsh Language in all aspects of their lives and develop greater awareness of the historical, cultural, community and linguistic context of Wales. You, as parents are central to us achieving this aim. We hope to increasingly involve you in our work towards implementing the Charter and in reinforcing the benefits of bilingualism with the pupils.

Please find attached Welsh phrases that parents can use as they leave their children in the morning and collect them in the afternoon. Please try and use these with your children.

On the same lines, can we remind you of the Welsh Language courses available on our doorstep at the Pontardawe Welsh Centre, Tŷ'r Gwrhyd that start this week. A course for everyone, whatever your level, is available – an excellent way of supporting your children on their language journey.

Phone 01639 763818
Email post@gwrhyd.cymru
@tyrgwrhyd
Facebook /tyrgwrhyd
<http://gwrhyd.cymru/>



Ffôn /
Ebost /
Twitter

Clwb Darllen / Reading Club

Yn dilyn llwyddiant y Clwb Darllen Cymraeg i Blant a gynhaliwyd yn Nhŷ'r Gwrhyd y tymor diwethaf, aildechreuodd y Clwb ar **ddydd Gwener, 21 Medi am 4:30pm.** Mae'r Clwb am ddim ac mae croeso cynnes i bob plentyn. Bydd angen i rieni gofrestru eu plentyn/plant os hoffent i'w plant ymuno â'r Clwb eto eleni. Bydd llyfrau amrywiol ar gael yn y Clwb i'r plant eu darllen ac mae croeso iddyn nhw ddod â'u llyfrau eu hunain i'w darllen hefyd.

*Following the success of the Children's Welsh Reading Club held at Tŷ'r Gwrhyd (Pontardawe Welsh Centre, Holly Street) last term, the Club resumed on **Friday, September 21st at 4:30 pm.** The Club is free and every child is warmly welcomed.*

Parents will need to register their child / children if they would like their children to join the Club again this year. There will be various books available at the Club for the children to read and they are also welcome to bring their own books to read.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Mae'n clwb brecwast yn agor am 8:00yb tan 8.30. Cofiwch mai cyfrifoldeb rhieni yw diogelwch y disgyblion hyd agorir drysau'r clwb am 8:00yb. Cofiwch - Ni allwn dderbyn disgyblion i'r clwb ar ôl 8:20yb. Am wybodaeth bellach a chwestiynau cyffredinol cliciwch. <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/brecwast-am-ddim-mewn-ysgolion-cynradd.pdf>

Our breakfast club is open at 8.00 until 8.30am. Could you please remember that pupils must be supervised until the doors open at 8.00am. Please remember that we cannot accept pupils to the club after 8:20am. For further information and frequently asked questions click on the Welsh Government link below.

<https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/free-breakfast-in-primary-schools.pdf>

Cofion Gorau / *Best Wishes*

Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*